## ATODLEN 1
## Y TIR A'R HAWLIAU NEWYDD SYDD WEDI'U CYNNWYS YN Y GORCHYMYN A GADARNHAWYD

Y canlynol yw'r mesuriadau Imperial sy'n cyfateb i'r mesuriadau metrig a ddangosir yn yr atodlen hon:-

Uned hyd - 1 metr = 1.094 llathen yn fras
1 metr = 3.28 troedfedd yn fras

Uned Arwynebedd 1 metr sg. = 1.196 llathen sgwâr yn fras

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Abergwili yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 1 | 4,360 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sy'n ymestyn o ffordd ddiddosbarth i'r gorllewin o Felin-wen ar hyd ffin ddwyreiniol yr eiddo a elwir yn Swn-y-coed ac wedi hynny yn dilyn perth caeau rhif 9822, 1512 a 2613 hyd at afon Annell i'r de o Whitemill Farm ac yn rhan o dir sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA737734. |
| 1/a | 3,012 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori sy'n cydgyffwrdd â ffin ogleddol Llain 1 yn ymestyn o ffordd ddiddosbarth i'r gorllewin o Felin-wen mewn lleoliad rhwng yr eiddo a elwir yn Swn-y-coed a Fronun hyd at ffin ddwyreiniol cae rhif 9822 ac yn rhan o'r tir sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA737734. |
| 1/b | 224 metr sgwâr<br>Ardal drionglog o dir yn cynnwys tir pori a leolir ar hyd ffin ddeheuol cae rhif 9822. |
| 1/c | 1,053 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sy'n rhan o gaeau rhif 1512 a 2613 sy'n cyd-gyffwrdd â ffin ddeheuol Llain 1 yn ymestyn o'r ffin rhwng caeau rhifau 9822 a 1512 i gyfeiriad y dwyrain i afon Annell i'r de o Whitemill Farm ac yn rhan o'r tir sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA737734. |
| 2 | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar dros 13 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys arglawdd afon a gwely'r afon Annell i'r de o'r eiddo a elwir yn Whitemill Farm at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd sy'n cynnwys llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont i gael mynediad i rannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain hon. |

## ATODLEN 1 (parhad)

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Abergwili yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 3 | 197 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn darn o dir sy'n cynnwys glaswellt yn rhannol a llwybr sy'n mynd yn uniongyrchol dros hwnnw a leolir i'r de o'r eiddo a elwir yn Whitemill Farm ac i'r gorllewin o afon Tywi ac yn cynnwys yr holl dir sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM736945 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |
| 4 | 2,553 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sy'n ymestyn ar hyd ffiniau gorllewinol a gogleddol cae rhif 4330 sydd i'r dwyrain o Whitemill Farm ac yn parhau ar hyd ffin ogleddol cae rhif 5438 i'r de o Orsaf Betrol Felin-wen ac i'r gogledd o afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM133915. |
| 4/a | 2,070 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sy'n ymestyn ar hyd ffiniau gorllewinol a gogleddol cae rhif 4330 sydd i'r dwyrain o Whitemill Farm ac yn parhau ar hyd ffin ogleddol cae rhif 5438 i'r de o Orsaf Betrol Felin-wen ac i'r gogledd o afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM133915. |
| 4/b | 501 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sy'n ymestyn ar hyd ffiniau gogleddol cae rhif 5438 sydd i'r dwyrain o Orsaf Betrol Felin-wen ac i'r gogledd o afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM133915. |
| 5 | 934 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn darn o dir sy'n cynnwys arwyneb bitwminaidd sydd i'r de o Gefnffordd yr A40 ac i'r dwyrain o Orsaf Betrol Felin-wen a'r tir i gyd sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM738490 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |
| 6 | 619 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn darn o dir sy'n cynnwys arwyneb bitwminaidd sydd i'r de o Gefnffordd yr A40 ac i'r dwyrain o Orsaf Betrol Felin-wen a'r tir i gyd sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM734340 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |
| 7 | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 489 metr sgwâr o dir i'r dwyrain o Orsaf Betrol Felin-wen a ger ffin ddeheuol Llain 6 ac i'r gogledd o afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM62502 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 6 a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, gan gynnwys yr hawl i barcio ar y tir hwnnw. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Abergwili yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 8 | 4,590 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori a rhan o drac mynediad ond gynt yn llwybr rheilffordd hanesyddol sy'n ymestyn ar hyd ffin ogleddol cae rhif 1250 cyn gwyro i gyfeiriad y de-ddwyrain, gan groesi trac mynediad, cyn mynd i mewn i gae rhif 3844 ac wedi hynny, parhau i ffin ddwyreiniol cae rhif 5836 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM762489. |
| 8/a | 809 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori i'r de o Gefnffordd yr A40 yn rhan o gae rhif 1250 ac yn cydgyffwrdd â rhan o ffin ddeheuol Llain 8 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM762489. |
| 8/b | 827 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori i'r de o Gefnffordd yr A40 yn rhan o ardal drionglog o dir i'r gogledd o gae rhif 1250 ac yn cydgyffwrdd â rhan o ffin ogleddol Llain 8 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM762489. |
| 8/c | 2,166 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori a rhan o drac mynediad sy'n ymestyn o ffin orllewinol trac mynediad sy'n arwain i adeilad amaethyddol ac yn parhau i gyfeiriad y de-ddwyrain yn cydgyffwrdd â ffin ddeheuol rhan o Lain 8 ac ar hyd perimedr gogleddol cae rhif 3844 ac yn ymestyn i ffin ddwyreiniol cae rhif 5836 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM762489. |
| 9 | 6,680 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori a darn bach o drac mynediad, y mae rhan ohono yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o ffin orllewinol cae rhif 7642 ar hyd llwybr rheilffordd hanesyddol i mewn i gae rhif 2192 cyn gwyro i ffwrdd o'r hen drac rheilffordd a pharhau i gyfeiriad mwy deheuol pellter byr cyn llwybr troed 2/27 lle mae wedi hynny yn croesi trac i mewn i gae rhif 1712 a 2300 ac sydd gerllaw afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM176522. |
| 9/a | 1,219 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o ffin orllewinol cae rhif 7642 ar hyd llwybr rheilffordd hanesyddol ac yn ymestyn am bellter byr i gae rhif 2192 ac yn cydgyffwrdd â rhan o ffin ogleddol Llain 9 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM176522. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Abergwili yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 9/b | 614 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori yn rhan o gae rhif 7642 sy'n cynnwys darn bach o drac mynediad sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd llwybr rheilffordd hanesyddol sy'n gyfochrog â ffin ddeheuol cae rhif 2192 cyn gwyro i ffwrdd o'r hen drac rheilffordd ac yn parhau i gyfeiriad mwy deheuol pellter byr cyn llwybr troed 2/27 ac wedi hynny'n croesi trac sy'n cynnal y llwybr troed a grybwyllwyd ynghynt ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM176522. |
| 9/c | 1,757 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori a darn bach o drac mynediad sy'n ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y de o ffin orllewinol y trac sy'n cynnal llwybr troed 2/27 i mewn i gae rhif 1712 ac wedi hynny ar draws y cae nesaf sef rhif 2300 gan ddod i ben wrth y ffin ddeheuol a gerllaw afon Tywi ac yn cynnwys rhan o'r eiddo a gofrestrwyd o dan deitl rhif CYM176522. |
| 10 | 7,573 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sy'n ymestyn ar hyd ffin ddeheuol cae rhif 4389 yn gyfochrog ag Afon Tywi a lle mae llwybr troed rhif 2/27 ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM617130. |
| **Yng Nghymuned Llanegwad yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 11 | 2,265 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori i'r gorllewin o Glan yr Ynys ac yn ymestyn ar hyd ffin ddeheuol cae rhif 6471 yn gyfochrog ag Afon Tywi ac sy'n cynnwys rhan o lwybr troed rhif 2/27 a rhan o'r eiddo a gofrestrwyd o dan deitl rhif CYM712866. |
| 11/a | 9,841 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o Glan yr Ynys ac yn ymestyn ar hyd ffin ddeheuol gyfan caeau rhif 7965, 9057 a 0150 yn gyfochrog a'r Afon Tywi ac yn cynnal rhan o lwybrau troed rhifau 41/1 a 2/27 cyn ymestyn tua'r gogledd ar hyd ffiniau dwyreiniol caeau rhif 0150 a 0161 ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM530564. |
| 11/b | 972 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o Glan yr Ynys ac yn ymestyn ar hyd ffiniau dwyreiniol caeau rhif 0150 a 0161 (yn rhannol) gerllaw'r lôn sy'n arwain i The Folly ac yn cynnal darn o lwybr troed rhif 41/1 ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM530564. |
| 11/c | 132 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o Glan yr Ynys ac yn ymestyn ar hyd rhan o ffin ddwyreiniol cae rhif 0170 (yn rhannol) gerllaw'r lôn sy'n arwain i The Folly ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM530564. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanegwad yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 11/d | 39 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o Glan yr Ynys ac yn ymestyn ar hyd rhan o ffin ddwyreiniol cae rhif 0161 (yn rhannol) gerllaw Llain 11/c ac i'r lôn sy'n arwain i The Folly ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM530564. |
| 12 | 716 metr sgwâr<br>Stribyn o dir sy'n cynnwys concrit a graean ac yn lled llawn lôn fynediad sy'n arwain i The Folly a Ty Castell ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif WA708052 |
| 13 | 13 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys arwyneb bitwmen a cherrig wrth y gyffordd rhwng y lôn fynediad sy'n arwain i The Folly a Ty Castell a'r briffordd ddiddosbarth sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan arian cyhoeddus sy'n ymestyn o Heol yr Orsaf, Nantgaredig. |
| 14 | 604 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o Maesydderwen yn ymestyn ar hyd ffin ddeheuol gyfan cae rhif 2974 gerllaw'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain tuag at y maes chwaraeon a'r clwb ac wedi hynny yn parhau i gyfeiriad y gogledd ar hyd y cae dywededig gerllaw Heol yr Orsaf, Nantgaredig sef rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM796146. |
| 14/a | 2,804 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o gae rhif 2974 yn cydgyffwrdd â Llain 14 ac yn rhan o Maesydderwen ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM796146. |
| 15 | 96 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o gae rhif 2852 sydd gerllaw ochr orllewinol Heol yr Orsaf, Nantgaredig ac yn ymestyn o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain tuag at y maes chwaraeon a'r clwb i gyfeiriad y de ac sy'n rhan o Parc Yr Ynys. |
| 15/a | 231 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori sef rhan o gae rhif 2852 i'r de o Lain 14 ac yn ymestyn o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain tuag at y maes chwaraeon a'r clwb i gyfeiriad y de ac sy'n rhan o Parc Yr Ynys. |
| 16 | 1979 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys rhan o ymyl laswelltog a rhan o lôn fynediad i'r de o hen Ddepo Ffermwyr Caerfyrddin yn Nantgaredig ond sydd bellach yn cynnal (yn rhannol) yr eiddo Ty Taffy, Graiglas, Llety'r Bugail a Nidaros ac yn ymestyn o Heol yr Orsaf (Ffordd Dosbarth II y B4310) i gyfeiriad y dwyrain i lôn sy'n cynnal llwybr troed 41/2 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA802718. |
| 16/a | 87 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys ymyl glaswelltog i'r de o'r eiddo a adwaenir fel Ty Taffy ac sydd gerllaw Heol yr Orsaf (Ffordd Dosbarth II y B4310) ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM32240. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanegwad yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 16/b | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 465 metr sgwâr o dir sy'n lôn fynediad i'r de o'r hen Ddepo Ffermwyr Caerfyrddin yn Nantgaredig ond sydd bellach yn cynnwys (yn rhannol) yr eiddo a elwir yn Ty Taffy, Graiglas, Llety'r Bugail a Nidaros ac yn ymestyn o Heol yr Orsaf (Ffordd Dosbarth II y B4310) i gyfeiriad y dwyrain ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhifau CYM32240 a WA802718 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 16 a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, gan gynnwys yr hawl i barcio ar y tir hwnnw. |
| 16/c | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 1,596 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys ardal laswelltog a llawr caled i'r dwyrain o'r lôn fynediad sydd i'r de o'r eiddo a adwaenir fel Ty Taffy, Graiglas, Llety'r Bugail a Nidaros ac yn ymestyn i gyfeiriad y dwyrain i lôn lle mae llwybr troed 41/2 ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA802718 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 16 a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, gan gynnwys yr hawl i barcio ar y tir hwnnw. |
| 17 | 6,231 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys yn rhannol drac a darn o arglawdd sef cae rhif 8773 lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol sy'n ymestyn o lwybr troed 41/2 i'r dwyrain o Heol yr Orsaf, Nantgaredig i gyfeiriad y dwyrain i afon Cothi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA813546. |
| 17/a | 7,479 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys yn rhannol drac a thir pori gerllaw ffin ogleddol Llain 17 sy'n ymestyn o lwybr troed 41/2 i'r dwyrain o Heol yr Orsaf, Nantgaredig i gyfeiriad y dwyrain ar draws caeau rhif 8078 a 0181 i afon Cothi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA813546. |
| 17/b | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 7,597 metr sgwâr o dir pori ger ffin ddeheuol Llain 17 sy'n ymestyn o lwybr troed 41/2, sydd i'r dwyrain o Heol yr Orsaf, Nantgaredig, i gyfeiriad y dwyrain ar draws caeau rhifau 5161, 7969 a 9263 at afon Cothi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA813546 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 17 a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno, gan gynnwys y bont dros afon Cothi, ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, gan gynnwys yr hawl i barcio ar y tir hwnnw. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanegwad yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 18 | 51 metr sgwâr<br>Stribyn o dir sy'n cynnwys arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol ac sydd wedi'i leoli gerllaw glan orllewinol afon Cothi ac yn rhan o Ystad Abercothi ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif WA528030. |
| 18/a | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar dros 1,766 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys arglawdd afon a gwely'r afon Cothi rhwng arglawdd yr hen reilffordd i'r gorllewin ac i'r dwyrain o hynny ac yn rhan o Ystad Abercothi at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif WA528030 |
| 18/b | 7,676 metr sgwâr<br>Stribyn o dir yn cynnwys llwybr rheilffordd hanesyddol sydd wedi'i leoli yn union gerllaw glan ddwyreiniol afon Cothi ac yn ymestyn i gyfeiriad y dwyrain ar draws cae rhif 1961 ac ar hyd ffin ogleddol cae rhif 3863 ac sy'n rhan o gae rhif 6164 i'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Bontargothi ac sy'n rhan o Ystad Abercothi ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo a gofrestrwyd o dan deitl rhif WA528030. |
| 18/c | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 6,779 metr sgwâr o dir pori ger ffin ogleddol Llain 18/b sy'n ymestyn o lan ddwyreiniol afon Cothi i gyfeiriad y dwyrain ar draws cae rhif 3378 i'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Bontargothi ac yn rhan o Ystad Abercothi ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif WA528030 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 18/b a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno gan gynnwys y bont dros afon Cothi ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, gan gynnwys yr hawl i barcio ar y tir hwnnw. |
| 18/d | 4,713 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys yn rhannol drac llawr caled sy'n ymestyn o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain o Abercothi Farm tuag at Bontargothi i gyfeiriad y dwyrain ar draws cae rhif 8071 i ffin de-orllewinol cae rhif 9787 lle mae'n dargyfeirio i gyfeiriad y de-ddwyrain ac yn troi i dir pori cyn dod i ben ar lan yr afon Tywi ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru yn nheitl rhif WA528030. |

## ATODLEN 1 (parhad)

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanegwad yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 18/e | 6,264 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn union gerllaw ffiniau deheuol a de-orllewinol Llain 18/d ac sy'n ymestyn o'r ffodd ddiddosbarth yn arwain o Abercothi Farm tuag at Bontargothi i gyfeiriad y dwyrain ar draws cae rhif 8071 cyn gwyro i gyfeiriad y de-ddwyrain a dod i ben ar lan yr afon Tywi ac sy'n cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru yn nheitl rhif WA528030. |
| 18/f | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar dros 1038 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys arglawdd afon ac un hanner o wely'r afon Tywi sy'n ffinio â chae rhif 8071 ac sy'n rhan o Ystad Abercothi at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif WA528030 |
| **Yng Nghymuned Llanarthne yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 18/g | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 712 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys un chwarter o wely'r afon Tywi i'r de o gae rhif 8071 ac sy'n ffinio â llain 18/f ac yr honnir ei fod yn ffurfio rhan o Ystad Abercothi at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont. |
| 19 | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 885 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys un chwarter o wely'r afon Tywi i'r gogledd o gae rhif 0161 ac sy'n ffinio â ffin ddeheuol llain 18/g ac yr honnir ei fod yn ffurfio rhan o Ystad Bremenda, Llanarthne at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont. |
| 19/a | 15,532 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori yn rhan o gaeau rhifau 0161, 2752, 3849 a 5749 yn ymestyn ar hyd arglawdd deheuol afon Tywi ac i'r gogledd o Bremenda Isaf ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM343574 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanarthne yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 19/b | 28,050 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn tir sy'n cynnwys tir pori gyda thrac anifeiliaid yn rhan o gae rhif 0537 i'r gorllewin o Bremenda Isaf ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac yna i lan ddeheuol afon Tywi ac wedi hynny, parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain ac yna i'r dwyrain gan ddilyn afon Tywi a chydgyffwrdd â rhan o Lain 19/a ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM343574 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |
| 20 | 1,615 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o gae rhif 6851 yn ymestyn ar hyd glan ddeheuol afon Tywi ac i'r dwyrain o Bremenda Isaf ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM434282. |
| 20/a | 342 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o gae rhif 6851 yn ymestyn ar hyd glan ddeheuol afon Tywi a gerllaw Llain 20 ac i'r dwyrain o Bremenda Isaf ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM434282. |
| 21 | 21,813 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn tir sy'n cynnwys tir pori sy'n ymestyn i ffin orllewinol cae rhif 7853 i'r gorllewin o Bremenda Ganol ac sy'n ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain dros gaeau rhifau 7853, 8856 a 9462 tuag at y rheilffordd segur y tu cefn i Bremenda Ganol a Bremenda Uchaf ac wedi hynny gwyro i gyfeiriad y de-ddwyrain dros gaeau rhifau 1069, 2960 a 4753 cyn dod i ben wrth ffin de-ddwyreiniol cae rhif 5950 i'r de o Barley Mount ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM343574 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |
| 21/a | 5,312 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn tir sy'n cynnwys rhan o drac mynediad a thir pori sy'n ymestyn o Ffordd Dosbarth II y B4300 i gyfeiriad cyffredinol y gogledd yn union i'r dwyrain o eiddo a thai allan Bremenda Uchaf cyn dargyfeirio i gyfeiriad y gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain i gefn yr eiddo dywededig. Mae'r llwybr olaf yn ymestyn dros gaeau rhif 9462 ac 1069 i ffin ddeheuol Llain 21 gyda'r hen lwybr yn mynd ar draws ac i gyfeiriad y gogledd ar hyd ffin orllewinol cae rhif 9462 i ffin ddeheuol Llain 21 cyn gwyro tua'r gorllewin ar draws caeau rhif 8856 a 7853 a ger Llain 21 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM343574 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |
| 21/b | 3,046 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori ger ffin ogleddol cae rhif 7143 sydd i'r gorllewin o Tre-clais ac wedi'i rhannu gan nant ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM343574 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanarthne yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 22 | 15,682 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori gan gynnwys rhan o'r rheilffordd segur a rhan o'r ffordd fynediad sy'n arwain i Barley Mount sydd i gyd wedi'u cynnwys yng nghae rhif 8757 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM355606. |
| 22/a | 475 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys rheilffordd rhannol segur a rhan o'r ffordd fynediad sy'n arwain at Barley Mount i gyd yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM355606. |
| 23 | 5,861 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori a rhan o drac mynediad ond gynt yn llwybr rheilffordd hanesyddol sy'n ymestyn o'r ffordd sy'n arwain i Barley Mount i gyfeiriad y de-ddwyrain ac i'r de o gae rhif 2661 a'r breswylfa a'r tai allan yn Glantowy i'r lôn fynediad sy'n arwain i Glantowy ac sy'n cynnal llwybr troed 31/27 ac yn ymestyn ar draws y lôn ac i mewn i'r cae y tu hwnt sy'n ffurfio rhan o safle carafanau cyn dod i ben ar ffin orllewinol cae rhif 5852 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM390288. |
| 23/a | 1,121 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori a rhan o drac mynediad ond gynt yn llwybr rheilffordd hanesyddol sy'n ymestyn o'r ffordd sy'n arwain i Barley Mount i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd ffin ddeheuol cae rhif 9674 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM390288. |
| 23/b | 1,883 metr sgwâr<br>Tir yn cynnwys rhan o'r lôn fynediad sy'n arwain at Glantowy Farm sy'n cynnwys llwybr troed 31/27 ac sy'n ymestyn o ffin ddeheuol Eglwys Dewi Sant i gyfeiriad y gogledd rhwng Buarth y Bragwr ac Eglwys Dewi Sant i bwynt wrth ymyl Station House sef yr holl eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM390401 |
| 24 | 70 metr sgwâr<br>Tir yn cynnwys ardal ag arwyneb tarmac rhwng Ffordd Dosbarth II y B4300 a'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glantowy Farm, Llanarthne. |
| 25 | 4,180 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori ond lle'r oedd yn hanesyddol lwybr reilffordd sydd bellach yn segur, sy'n ymestyn o ffin orllewinol cae rhif 5852 ar hyd ffin ogleddol cae rhif 4838 i lan afon Gwynon ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA707862. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanarthne yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 25/a | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 4,371 metr sgwâr o dir pori ger ffin ddeheuol Llain 25 sy'n ymestyn o ffin ddwyreiniol y lôn sy'n arwain i Glantowy Farm ac sy'n cynnwys llwybr troed 31/27 i gyfeiriad y dwyrain ar draws cae rhif 4838 ac yn parhau dros afon Gwynon i gae rhif 6029 ac yn dod i ben ar ffin gogledd-orllewinol cae rhif 6933 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 25 a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno gan gynnwys y bont dros afon Gwynon ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, gan gynnwys yr hawl i barcio ar y tir hwnnw. |
| 25/b | 2,031 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o gae rhif 5852 i'r dwyrain o'r safle carafanau yn Glantowy Farm ac i'r gogledd o'r rheilffordd segur sy'n ymestyn o ffin orllewinol cae rhif 5852 i gyfeiriad y dwyrain ac yn parhau dros afon Gwynon am bellter byr i mewn i gae rhif 6933 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA707862. |
| 25/c | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 71 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys arglawdd afon a gwely'r afon Gwynon i'r dwyrain o'r safle carafanau yn Glantowy Farm ac sy'n croesi'r hen reilffordd at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd sy'n cynnwys llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont i gael mynediad i rannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain hon. |
| 26 | 20,219 metr sgwâr<br>Stribyn o dir sy'n cynnwys darn o arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol ac sy'n ymestyn o lan ddwyreiniol afon Gwynon i gyfeiriad y de-ddwyrain gan basio i'r gogledd o Beili Glas gan ddod i ben mewn man lle mae'r tro yn afon Tywi yn union gerllaw'r arglawdd ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM400061. |
| 27 | 10,543 metr sgwâr<br>Stribyn o dir sy'n cynnwys darn o arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain ar hyd ffiniau gogleddol caeau rhif 8994 ac 1388 tuag at hen adeilad Gorsaf Dryslwyn gan ddod i ben wrth y gyffordd â Ffordd Dosbarth II y B4297 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA554609. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanarthne yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 28 | 15,404 metr sgwâr<br>Stribyn o dir yn cynnwys yn bennaf darn o arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol ond sydd hefyd yn cynnwys ardal fechan o dir pori a rhan o drac sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o'r gyffordd â ffin ddwyreiniol Ffordd Dosbarth II y B4297 i bwynt sydd yn union wrth ymyl Afon Tywi a leolir i'r gogledd o'r man hwnnw ac i'r gogledd o Glanrwyth ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM400061 |
| **Yng Nghymuned Llanfihangel Aberbythych yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 28/a | 32,844 metr sgwâr<br>Stribyn o dir gerllaw, ond i'r de o afon Tywi sy'n cynnwys darn o arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol ond sydd hefyd yn cynnwys darn o drac a darnau o dir pori, sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o fan sy'n cydgyffwrdd â ffin ddwyreiniol Llain 28 i fan sydd i'r gorllewin o Allt Pantglas ac i'r dwyrain o drac sy'n arwain i Ffordd Dosbarth II y B4300 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM400061 ond heb gynnwys y buddiant lesddaliadol yn y darn hwn o dir sy'n rhan o deitl rhif CYM380044 a heb gynnwys ymhellach yr holl gyfryw hawliau, ystadau a buddiannau ag sydd gan y llesddeiliad yn y tir a ddisgrifir uchod. |
| 28/b | 6,476 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori rhwng arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol ac afon Tywi i'r gogledd o hynny ac yn rhan o gae rhif 2897 i'r gogledd o ben pellaf dwyreiniol Llain 28/a ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM400061. |
| 28/c | 2,179 metr sgwâr<br>Tir sydd yn union gerllaw ffin ddwyreiniol Llain 28/b yn cynnwys tir pori a phwll ac wedi'i leoli rhwng yr arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol a'r afon Tywi i'r gogledd o hynny yn rhan o gae rhif 5623 ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM400061. |
| 28/d | 36,446 metr sgwâr<br>Stribyn o dir gerllaw ochr ddeheuol afon Tywi sy'n cynnwys darn o arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o fan sy'n cyd-gyffwrdd â ffin ddwyreiniol Llain 28/a drwy ardal a adwaenir fel Allt Pantglas i fan sydd pellter byr y tu hwnt i drac sy'n ymestyn ar hyd ffin orllewinol cae rhif 7904 ac yn rhan o eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM400061. |
| 28/e | 4,310 metr sgwâr<br>Stribyn o dir gerllaw ffin ddeheuol cae rhif 7904 sy'n cynnwys darn o arglawdd lle'r oedd rheilffordd yn hanesyddol sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o fan sy'n cydgyffwrdd â ffin ddwyreiniol Llain 28/d i fan sydd ger ffin orllewinol y Ffordd Dosbarth III ac i'r de o Bont Cilsan ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Llanfihangel Aberbythych yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 28/f | 15,778 metr sgwâr<br>Stribyn o dir sef llwybr rheilffordd hanesyddol yn ymestyn o ffin ddwyreiniol Ffordd Dosbarth III ac i'r de o Bont Cilsan i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain heibio Fferm Coleg Gellir Aur i'r de o hwnnw a'r ffordd fynediad i Towy-Cott ac yn dod i ben ar ffin ddwyreiniol cae rhif 7162 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 29 | 3,079 metr sgwâr<br>Stribyn o dir sy'n cynnwys tir pori yn ymestyn ar hyd ffin ddeheuol cae rhif 1417 ac i'r gogledd o Pentrecwn Farm sy'n rhan o'r eiddo wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM849818 |
| **Yng Nghymuned Dyffryn Cennen yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 29/a | 248 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys trac mynediad ond lle'r oedd rheilffordd hanesyddol yn flaenorol sy'n ymestyn o ffin ddwyreiniol Llain 29 ar hyd rhan o ffin ddeheuol cae rhif 4546 ac sydd i'r gogledd o Pentrecwn Farm ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM849818. |
| 30 | 1,848 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys stribyn o dir pori a rhan o drac mynediad ond gynt yn llwybr rheilffordd hanesyddol sy'n ymestyn o ffin ddwyreiniol Llain 29/a ar hyd rhan o ffin ddeheuol cae rhif 4546 ac yn parhau am bellter byr i hafn rheilffordd ac sydd i'r gogledd o Pentrecwn Farm ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM849818. |
| 31 | 6,377 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys trac mynediad ond lle'r oedd rheilffordd hanesyddol yn flaenorol sy'n ymestyn o ffin ddwyreiniol Llain 30 drwy hafn rheilffordd i'r dwyrain o Fferm Pentrecwn ac sy'n terfynu ar lan ddeheuol afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 32 | 2,326 metr sgwâr<br>Tir sydd bellach yn cynnwys tir pori a rhan o drac mynediad lle'r oedd rheilffordd hanesyddol yn flaenorol ar hyd ffin ddwyreiniol cae rhif 5126 sydd i'r de-ddwyrain o Pentrecwn Farm ac i'r de o afon Tywi ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM849818. |
| 32/a | Yr hawl i deithio dros 510 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys tir pori sy'n rhan o gae rhif 5126 yn unig ar gyfer symud defnyddwyr ar frys o'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr a dim ond mewn adegau o lifogydd. |
| 33 | 903 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys darn o dir pori ac yn rhan o gae rhif 6114 i'r dwyrain o Hendy ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM374089 |
| 33/a | 15,568 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori gan gynnwys pwll ac arglawdd rheilffordd sef llwybr rheilffordd hanesyddol a rhan o gae rhif 8010 i'r gogledd-ddwyrain o Hendy ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM737913. |

**ATODLEN 1 (parhad)**

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Dyffryn Cennen yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 33/b | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar dros 135 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys rhan o hen argloddiau rheilffordd yn ogystal ag ardal o dir agored wedi'i lleoli rhwng yr argloddiau rheilffordd hanesyddol i'r gogledd o gae rhif 8010 ac sy'n rhan o Hendy Farm at ddiben arolygu'r gwaith o adeiladu a gosod pont sy'n ymestyn dros y gofod aer hwnnw ynghyd â strwythurau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer priffordd gan gynnwys yr hawl i fynediad wedi hynny fel y dywedwyd uchod at ddiben ailadeiladu, ailosod, arolygu, newid, adnewyddu, atgyweirio, cynnal a chadw neu waredu hynny ac yn ogystal, yr hawl i gerddwyr, beicwyr a cherbydau cynnal a chadw i deithio dros ac ar hyd y bont ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gofrestru o dan deitl rhif CYM737913 |
| 33/c | 700 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys hen arglawdd rheilffordd sef llwybr rheilffordd hanesyddol ac sydd gerllaw rhan o ffin ogleddol cae rhif 8010 sydd i'r gogledd-ddwyrain o Hendy ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM737913. |
| 34 | 2,576 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys hen arglawdd rheilffordd sef llwybr rheilffordd hanesyddol ac sydd gerllaw rhan o ffin ogleddol cae rhif 9807 ac i ran o ffin ogleddol cae rhif 1204 sydd oll i'r gogledd o Lletyglyd ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM734697. |
| 35 | 3,935 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys hen arglawdd rheilffordd sef llwybr rheilffordd hanesyddol yn ymestyn o ffin ddwyreiniol Llain 34 ac sydd gerllaw ffin ddeheuol caeau rhif 1517, 2413 a rhan o 3307 lle y mae ar ôl hynny yn culhau ac yn parhau ar hyd llwybr yr hen reilffordd segur i'r lôn fynediad sy'n arwain i Glanyrafon ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364 |
| 35/a | 7,091 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori i'r de a gerllaw rheilffordd hanesyddol i'r de o Glanyrafon ac i'r gogledd o Lletyglyd a chaeau rhif 1204, 2696 a 3595 ac yn ymestyn i'r lôn fynediad sy'n arwain i Glanyrafon ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364 |
| 35/b | 848 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori i'r gogledd a gerllaw rheilffordd hanesyddol i'r de o Glanyrafon ac yn rhan o gae rhif 3307 ac yn ymestyn o ffin ddwyreiniol Llain 35 i'r lôn fynediad sy'n arwain at Glanyrafon ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 36 | 25 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys rheilffordd hanesyddol ond bellach yn ffurfio rhan o'r lôn fynediad sy'n arwain at Glanyrafon ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM854582. |

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Dyffryn Cennen yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 36/a | Yr hawl i fynediad gyda'r holl weithwyr, cerbydau, peiriannau, offer a chyfarpar angenrheidiol dros 1,643 metr sgwâr o dir sy'n rhan o'r lôn fynediad i Glanyrafon sy'n ymestyn o Ffordd Dosbarth II y B4300 i gyfeiriad y gogledd i'r hen reilffordd ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM854582 at bob diben sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r llwybr cyd-ddefnyddio i gerddwyr/beicwyr sydd wedi'i adeiladu dros Lain 35 a rhannau o'r llwybr sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llain honno ond nid ar gyfer unrhyw ddiben arall |
| 36/b | 2,665 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o Glanyrafon ac yn cydgyffwrdd â ffin ddeheuol cae rhif 5198 ger Ffordd Dosbarth II y B4300 ac yn ymestyn o'r ffin ddwyreiniol i'r lôn fynediad sy'n arwain i Glanyrafon ac wedi hynny, yn parhau i gyfeiriad y gogledd ger ffin ddwyreiniol y lôn fynediad i lwybr yr hen reilffordd ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM854582 ond heb gynnwys yr holl gyfryw hawliau cyfreithiol, hawliau ecwitïol a hawliau eraill, ystadau a buddiannau ag sydd gan y lesddeiliad neu ag a all fod gan y lesddeiliad yn Llain Rhif 36/b |
| 36/c | 2,968 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o Glanyrafon ac yn union gerllaw ffiniau dwyreiniol a gogleddol Llain 36/b ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM854582 ond heb gynnwys yr holl gyfryw hawliau cyfreithiol, hawliau ecwitïol a hawliau eraill, ystadau a buddiannau ag sydd gan y lesddeiliad neu ag a all fod gan y lesddeiliad yn Llain Rhif 36/c |
| 37 | 144 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys rheilffordd hanesyddol i'r dwyrain ac yn agos i ran o'r lôn fynediad sy'n arwain i Glanyrafon ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 38 | 1,343 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori yn rhan o gae rhif 6102 gan ymestyn yr hyd cyfan o'r ffin orllewinol i'r ffin ddwyreiniol ac yn cydgyffwrdd â ffin ogleddol Llain 38/a ac yn gyfochrog â Ffordd Dosbarth II y B4300 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 38/a | 3,704 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori a choetir sy'n ymestyn ar hyd ffiniau deheuol caeau rhif 6102 a 7705 yn gyfochrog â Ffordd Dosbarth II y B4300 ac sy'n dod i ben wrth y ffordd fynediad sy'n arwain at y gwaith trin carthffosiaeth sydd i'r gogledd o hynny ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 39 | 144 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys ffordd fynediad sy'n arwain i'r gwaith trin carthffosiaeth i'r gogledd o hynny ac sy'n rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM542371. |

## ATODLEN 1 (parhad)

| Rhif ar y Map (1) | Maint a lleoliad y tir, ynghyd â disgrifiad ohono (2) |
|---|---|
| **Yng Nghymuned Dyffryn Cennen yn Sir Gaerfyrddin** | |
| 40 | 3,501 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir pori gerllaw ffin ddeheuol cae rhif 9513 i'r dwyrain o'r ffordd fynediad sy'n arwain i'r gwaith trin carthffosiaeth ac i'r gogledd o Brif Ffordd yr A476 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 41 | 1,832 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir sy'n rhan o goetir a adwaenir fel Lovelodge Wood sydd gerllaw ffin ddeheuol cae rhif 1025 i'r de o Lovelodge Farm ac i'r gogledd o Brif Ffordd yr A476 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM649270. |
| 42 | 78 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys stribyn o dir sy'n rhan o goetir a adwaenir fel Lovelodge Wood sy'n cydgyffwrdd a ffin ddwyreiniol Llain 41 a gerllaw ffin ddeheuol cae rhif 1025 sydd i'r de o Lovelodge Farm ac i'r gogledd o Brif Ffordd yr A476 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif WA926105. |
| 43 | 2,196 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys rhan o lôn fynediad sy'n arwain i Love Lodge Farm ond yn bennaf coetir i'r gogledd o Brif Ffordd yr A476 ac i'r gorllewin o Ysgol Bro Dinefwr sef rhan o gae rhif 2331 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 44 | 2,540 metr sgwâr<br>Pob buddiant mewn darn o dir sy'n cynnwys rhan o safle Ysgol Bro Dinefwr yn ymestyn ar hyd ei ffin ddeheuol ac i'r gogledd o Brif Ffordd yr A476 ac yn rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM604216 ac eithrio'r rhai hynny sy'n eiddo i'r awdurdod caffael |
| 45 | 106 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys lôn fynediad rhwng ffin ddwyreiniol Ysgol Bro Dinefwr a chae rhif 5845 i'r dwyrain o hynny a lle mae rhan o lwybr troed 44/3 ac yn cynnwys rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364. |
| 45/a | 7,969 metr sgwâr<br>Tir sy'n cynnwys tir pori sef cae rhif 5845 i'r dwyrain o'r lôn fynediad gerllaw ffin ddwyreiniol Ysgol Bro Dinefwr ac i'r gogledd o Brif Ffordd yr A476 sef rhan o'r eiddo sydd wedi'i gynnwys yn nheitl rhif CYM373364 ac sy'n cynnal llwybr troed 44/3 ar draws hyd y ffin orllewinol. |

## ATODLEN 2
## FFURFLEN DATGANIAD O EFFAITH RHAN 2 RHAN 3 O DDEDDF PRYNU GORFODOL (DATGANIADAU BREINIO) 1981

### Pŵer i wneud datganiad breinio cyffredinol

1 Pan fydd Gorchymyn Prynu Gorfodol Cyngor Sir Caerfyrddin (Llwybr Cyd-ddefnyddio Ffair-fach i Felin-wen) 2023 yn weithredol, gall Cyngor Sir Caerfyrddin ("yr awdurdod caffael") gaffael unrhyw dir a ddisgrifir yn Atodlen 1

uchod gan weithredu datganiad breinio cyffredinol dan adran 4 o'r Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ("y Ddeddf"). Effaith hyn, yn ddarostyngedig i baragraff 3 a 5 isod, fydd breinio'r tir i'r awdurdod caffael ar ddiwedd y cyfnod a nodir ym mharagraff 2.

**Hysbysiadau ynghylch datganiad breinio cyffredinol**

2 Cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r awdurdod caffael weithredu datganiad breinio cyffredinol, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad ohono i bob meddiannydd ar unrhyw dir a bennir yn y datganiad (ac eithrio tir lle ceir un o'r tenantiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 4) ac ar bob person sy'n rhoi gwybodaeth iddo am y tir yn dilyn y gwahoddiad sydd wedi'i gynnwys yn hysbysiad cadarnhau'r gorchymyn. Pan fydd yr hysbysiadau o ran y datganiad breinio cyffredinol wedi cael eu cwblhau, bydd cyfnod a bennir yn y datganiad, heb fod yn llai na thri mis, yn dechrau. Ar y diwrnod cyntaf wedi i'r cyfnod hwn ddod i ben bydd y tir a ddisgrifir yn y datganiad yn cael ei freinio yn yr awdurdod caffael, yn amodol ar gynnwys paragraff 3 a 5, ynghyd â'r hawl i gael mynediad i'r tir ac i'w feddiannu. Bydd gan bob person y gallai'r awdurdod caffael fod wedi cyflwyno hysbysiad iddo i drafod telerau mewn perthynas â'i fuddiant yn y tir (ac eithrio tenant o dan un o'r tenantiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 4) yr hawl i hawlio iawndal am gaffael ei fuddiant yn y tir, ynghyd â llog ar yr iawndal o'r dyddiad breinio.

3 Y "dyddiad breinio" ar gyfer unrhyw dir a bennir mewn datganiad fydd y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2, oni bai y cyflwynir gwrth-hysbysiad o dan Atodlen A1 i'r Ddeddf o fewn y cyfnod hwnnw. Os cyflwynir gwrth-hysbysiad, pennir y dyddiad breinio ar gyfer y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad yn unol ag Atodlen A1.

**Newidiadau mewn perthynas â rhai tenantiaethau**

4 Yn achos rhai tenantiaethau, mae'r sefyllfa a nodir uchod yn amodol ar addasiadau. Mae'r addasiadau'n berthnasol pan fydd y denantiaeth naill ai'n "denantiaeth fer", h.y. tenantiaeth am flwyddyn neu denantiaeth flynyddol neu lai o fuddiant, neu'n "denantiaeth hir sydd ar fin dod i ben". Ystyr "tenantiaeth hir sydd ar fin dod i ben" yw tenantiaeth a roddir ar gyfer buddiant sy'n fwy na thenantiaeth fer ond a chanddi ar y dyddiad breinio gyfnod sydd eto i redeg nad yw'n fwy na'r cyfnod a nodir yn y datganiad at y diben hwn (y mae'n rhaid iddo fod yn fwy na blwyddyn). Wrth gyfrifo pa mor hir sydd gan denantiaeth ar ôl i redeg, lle mae unrhyw opsiwn i adnewyddu neu derfynu ar gael i'r naill barti neu'r llall, tybir y bydd y landlord yn manteisio ar bob cyfle i derfynu'r denantiaeth ac y bydd y tenant yn manteisio ar bob cyfle i gadw neu adnewyddu ei fuddiant.

5 Yr addasiadau yw na chaiff yr awdurdod caffael arfer yr hawl mynediad y cyfeirir ato ym mharagraff 2 mewn perthynas â thir sy'n ddarostyngedig i denantiaeth a ddisgrifir ym mharagraff 4 oni bai ei fod yn gyntaf yn cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn perthynas â'r denantiaeth, ac yna'n cyflwyno hysbysiad i bob un o feddianwyr y tir o'i fwriad i ddod i mewn a chymryd meddiant ar ôl y cyfnod (na all fod yn llai na thri mis o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad) a nodir yn yr hysbysiad. Bydd yr hawl mynediad yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bydd breinio'r tir yn ddarostyngedig i'r denantiaeth tan ddiwedd y cyfnod hwnnw, neu tan y daw'r denantiaeth i ben, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

**ATODLEN 3**

FFURFLEN AR GYFER RHOI GWYBODAETH

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO FFAIR-FACH I FELIN-WEN) CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2023

I: Cyngor Sir Caerfyrddin

Rydw i/Rydym ni, sef person/personau y byddai gennym hawl, petai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei wneud o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ynghylch yr holl dir a gynhwysir yn y gorchymyn prynu gorfodol uchod na roddwyd hysbysiad i drafod telerau yn ei gylch, i ofyn am iawndal yng nghyswllt yr holl dir/rhan o'r tir hwnnw, yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi, yn unol â darpariaethau adran 15 o, neu baragraff 6 o Adodlen 1, y Ddeddf Caffael Tir 1981.

1 Enw a chyfeiriad yr hysbysydd (hysbyswyr)

2 Tir lle caiff buddiant ei ddal gan hysbysydd (hysbyswyr)

3 Y math o fuddiant

Llofnodwyd

ar ran

Dyddiad

Dyddiedig y 8fed o fis Mai, 2024

Wendy Walters,
Prif Weithredwr,
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin

Cyfeirnod y Ffeil: HD/HTCP-389